



## Geirfa'r cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter, Instagram, LinkedIn

### Facebook

Badge – blwch wedi'i bersonoleiddio yr ydych yn ei greu er mwyn rhannu eich proffil neu dudalen ar wefannau eraill

Chat – anfon negeseuon gwib

Event – creu a rheoli digwyddiadau, gwahodd a dilyn hynt eich ffrindiau

Follow – mireinio eich ffrwd newyddion fel eich bod yn gweld y rhai y mae gennych ddiddordeb ynddynt

Friend – pobl yr ydych yn cysylltu ac yn rhannu â hwy

Groups – ei gwneud hi'n hawdd cysylltu â rhai pobl, lle arbennig ar gyfer lluniau a dogfennau, a gall fod yn grŵp preifat ar gyfer aelodau yn unig

Like – ffordd gadarnhaol o roi adborth a chysylltu â'r pethau sy'n bwysig i chi. Bydd y ffaith eich bod yn hoffi postiadau yn ymddangos ar linell amser rhywun, ac felly hefyd hoffi tudalen

Newsfeed – llinell amser o bethau y mae eich ffrindiau neu dudalennau yr ydych chi'n eu dilyn yn eu rhannu

Notifications – diweddariadau am weithgarwch ar Facebook

Poke – i fynnu sylw rhywun; os gwnewch hyn fe gânt eu hysbysu

Search – arf i ddod o hyd i bobl, tudalennau, postiadau, grwpiau ac ati

Tagging – tagiwch berson, tudalen neu le i bostiad, statws neu lun, ac yna bydd y person yn cael ei hysbysu

Ticker – yn cael ei ddiweddarau'n fyw â gweithgarwch eich ffrindiau

Timeline – lle gallwch weld eich postiadau eich hun a'r rhai yr ydych wedi eu tagio ynddynt

Timeline review – yma gallwch gymeradwyo lluniau cyn iddynt ymddangos ar eich proffil

Top stories – y pynciau sy'n 'trendio'

Activity log – rhestr o sylwadau ac ati ar eich tudalen

Boost post – hysbysebu am dâl er mwyn gwneud i'ch postiad ymddangos yn uwch yn Ffrwd Newyddion y gynulleidfa, a'r gost yn dibynnu ar faint o bobl y mae arnoch eisiau eu cyrraedd

Check-ins – gweithred i gyhoeddi eich lleoliad

Cover photo – llun ar frig eich proffil

Milestone – tynnu sylw at adegau allweddol o'ch llinell amser

Offer – mae busnesau'n rhannu cynigion disgownt gyda'u dilynwyr ar eu ffrwd newyddion

Page admin – gall gweinyddwyr olygu tudalen yn ogystal â chyhoeddi postiau fel perchennog y dudalen

Suggested edits – gall pobl sy'n ymweld â'ch tudalen awgrymu newidiadau megis eich rhif ffôn

Tabs – yn cadw eich tudalen yn drefnus ac yn ei gwneud hi'n haws i weld cynnwys penodol

Daily active user – nifer y bobl sydd wedi ymwneud â'ch tudalen mewn diwrnod

Engaged users – y nifer sydd wedi clicio yn unrhyw le ar eich postiad

Likes – pobl sy'n hoffi eich tudalen

Organic reach - nifer yr unigolion unigryw a welodd bostiad penodol o'ch tudalen ar eu ffrwd

Paid reach – nifer yr unigolion unigryw a welodd bostiad Facebook y bu ichi ei hybu

Post reach – cyfanswm nifer y bobl a welodd eich postiad

Total likes – nifer y bobl sydd wedi hoffi eich tudalen

Total reach – nifer y bobl sydd wedi gweld unrhyw gynnwys sy'n gysylltiedig â'ch tudalen

When fans are online – yn dangos pryd y mae pobl ar eu Facebook

Impressions – y nifer o weithiau y mae postiad o'ch tudalen yn cael ei arddangos, boed rhywun yn clicio arno ai peidio

Media consumption – y nifer o weithiau y mae fideo wedi cael ei gwyllo/llun wedi cael ei weld

## Twitter

# (hashnod) – gair neu ymadrodd sy'n dilyn y symbol hwn heb ofod. Pan gliciwch arno, fe welwch eraill yn defnyddio yr un un. Mae'n casglu trydariau ynghylch y pwnc hwnnw ac yn gweithredu fel hyperddolen

@ - cyfeirio at enwau defnyddwyr eraill e.e. Helô @twitter

Alerts – yn tynnu sylw at gynnwys pwysig sy'n sensitif o ran amser

Bio – disgrifiad personol byr (hyd at 160 o nodau)

Block – ddim yn gallu eich dilyn, ac allwch chithau ddim gweld eu trydariau hwy ychwaith

Deactivation – datgysylltu cyfrif; yna bydd yn cael ei ddileu'n barhaol wedi 30 diwrnod

Direct messages – negeseuon preifat a anfonir o un cyfrif i un arall

Follow – tanysgrifio i gyfrif Twitter trwy ‘ddilyn’ eu tudalen. Bydd unrhyw un y byddwch yn ei ddilyn yn ymddangos ar eich ffrwd Twitter

Follow count – faint o bobl yr ydych yn eu dilyn a faint o bobl sy’n eich dilyn chi

Follower – rhywun sydd wedi dilyn eich tudalen ac a fydd yn gweld eich trydariadau ar eu hafan

Geolocation/Geotagging – ychwanegu lleoliad i’ch neges drydar fel y gall eraill weld lle’r oeddech chi pan fu ichi ei phostio

Header photo – delwedd bersonol yr ydych yn ei llwytho ac sy’n ymddangos ar frig eich proffil

Home – yn arddangos llinell amser o drydariadau gan y bobl yr ydych yn eu dilyn

Like – yn dangos eich bod chi’n gwerthfawrogi trydariat, ac fe’i gwneir trwy glicio ar yr eicon calon

List – gallwch greu rhestr grŵp o gyfrifon Twitter yn ôl pwnc neu faes diddordeb, a chewch hefyd linell amser ar wahân o drydariadau gan y grwpiau hynny yn benodol

Mobile web – fersiwn symudol Twitter o’r wefan

Mention – crybwyll rhywun gan ddefnyddio’r arwydd @ ac yna eu henw defnyddiwr

Night mode – yn ei gwneud hi’n haws defnyddio Twitter pan nad oes llawer o olau

Notifications – yn dangos eich ymwneud â chyfrifon Twitter eraill, pwy sy’n hoffi, yn crybwyll, yn aildrydar a phwy sydd wedi eich dilyn

Pinned Tweets – gallwch ‘binio’ un o’ch trydariadau amlycaf i frig eich proffil fel mai dyma’r peth cyntaf y bydd pobl yn ei weld pan fyddant yn clicio ar eich tudalen

Profile photo – delwedd bersonol yr ydych yn ei phennu i’ch cyfrif

Promoted moments – wedi’u hysgrifennu gan frand ac yn ymddangos yn adran ‘moments’ eich llinell amser

Promoted trends – yn dangos tueddiadau sy’n sensitif o ran amser, cyd-destun a digwyddiadau ac sy’n cael eu hyrwyddo gan ein hysbysebwr; maent yn ymddangos ar frig y rhestr ‘trendio’

Protected Tweets – trydariadau yn cael eu gweld gan eich dilynwyr yn unig, nid pawb

Reply – ymateb i neges drydar gan rywun arall

Reactivation – ysgogi eich cyfrif unwaith eto

Retweet – y weithred o rannu neges drydar rhywun arall fel ei bod yn ymddangos ar eich llinell amser chi

Timeline – ffrwd o’r holl drydariadau gan bobl yr ydych yn eu dilyn

Top Tweets – yn dangos y trydariadau mwyaf poblogaidd neu fwyaf diweddar

Tweet – gall gynnwys testun, lluniau, fideos a GIFs

Twitter Polls – yn caniatáu ichi roi eich barn ar gwestiynau a ofynnir gan bobl eraill ar Twitter; gallwch greu eich arolwg barn eich hun yn rhwydd

Verification – proses lle mae cyfrif Twitter yn cael eicon tic glas er mwyn dangos bod awdur y neges drydar honno yn ffynhonnell ddilys

Who to follow – rhestr awtomataidd o awgrymiadau o bwy i'w dilyn ar sail y bobl yr ydych yn eu dilyn yn barod

## Instagram

Post – delwedd sydd wedi cael ei llwytho

Like – tapiwch ddwywaith ar y ddelwedd ei hun, i ddangos eich bod yn ei hoffi

Handle – eich enw defnyddiwr

Follower – rhywun sy'n gallu gweld pob llun yr ydych yn ei gyhoeddi ar eich ffrwd

Bio – ardal ar gyfer ysgrifennu disgrifiad byr ohonoch chi'ch hun

Filters – gwahanol effeithiau y gallwch eu rhoi ar ddelwedd, gan newid y lliw, pa mor olau ydyw, ac ati – maent yn cynnwys fframiau

Hashtag – yn eich galluogi i weld pobl eraill yn trafod yr un peth

Caption – yn rhoi cyd-destun ar gyfer y ddelwedd ac yn dweud rhywfaint wrthyich ynghylch ble'r ydych chi, beth yr ydych chi'n ei wneud ac ati

Comments – gall pobl ysgrifennu sylwadau ar eich delweddau, a chithau ar eu rhai hwythau. Gallwch hefyd dagio pobl eraill mewn sylwadau, fel eu bod yn cael eu hysbysu @enwdefnyddiwr

Feed – rhestr o ddelweddau gan bobl yr ydych yn eu dilyn

Posts figure – faint o luniau yr ydych chi neu eraill wedi eu cyhoeddi

Activity feed – ffrwd byw o'r hyn y mae'r bobl yr ydych chi'n eu dilyn wedi'i lwytho neu ei hoffi

Explore tab – chwilio neu weld categori o ddelweddau sydd fwyaf poblogaidd ar Instagram

## LinkedIn

Update – cynnwys yr ydych yn ei gyhoeddi

Profile – chi a hanes eich swyddi, eich CV ar-lein

Company Page – yn debyg i'ch proffil, ond ar gyfer busnesau, gwybodaeth am eu cwmni, a diweddariadau

Mention – fel tagio ar Twitter a Facebook

Connection – yn dangos eich bod chi a pherson arall wedi rhannu eich proffiliau â'ch gilydd

Degrees – yn dangos sut yr ydych chi'n gysylltiedig â pherson, a allai fod trwy gyfrwng nifer o bobl

Invitation – gofyn i rywun ymuno â'ch rhwydwaith a chysylltu â chi

Introduction – yn debyg i wahoddiad, ond ar gyfer pobl nad ydych yn gysylltiedig â hwy

Groups – fforymau ar gyfer trafodaeth, naill ai'n gaeedig neu'n agored

Network – y bobl yr ydych yn gysylltiedig â hwy, a'r bobl y maent hwy'n gysylltiedig â hwy

Recommendation – cymeradwyaeth i'ch sgiliau

LinkedIn Today – ffynhonnell ar gyfer holl newyddion eich diwydiant mewn un man